



Mr Steve Moore  
Pencadlys Bwrdd Iechyd Hywel Dda  
Merlins Court  
Winch Lane  
Hwlfordd

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr Moore

### **Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol**

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar y cyfan, rwy'n siomedig ar eich ymateb gan ei fod yn awgrymu diffyg ffocws ar y canlyniadau yr wyf yn ceisio'u sicrhau ar ran pobl hŷn a'i fod mewn llawer o achosion yn cynnig ychydig yn unig o wybodaeth imi mewn perthynas â chamau pendant sydd gennych ar eu hanner neu yr ydych yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd

wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir



**Sarah Rochira**  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

## **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

### **Cam Gofynnol 1.3**

#### **Casgliad - Rhannol**

1.3 Dylai cymorth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi'r arferion gorau wrth ddarparu gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac o ran urddas.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ei fod yn cydnabod bod angen rhoi cymorth gyda gofal ymataliaeth drwy gyfrwng y Bwrdd Iechyd, ac yn ddatganiad clir o'r ddarpariaeth bresennol o safbwynt y Bwrdd.

Serch hynny, nid oes asesiad o realiti'r sefyllfa i unigolion o ran gallu cael gafael â'u profiadau o'r gwasanaethau hyn. Ni ddarperir dadansoddiad na dealltwriaeth glir o'i allu i gynnal yr arferion gorau nac o'i ddulliau sicrhau ansawdd. At hynny, er ei fod yn deall bod angen cynnal gofal ymataliaeth nid oes ymrwymiad clir i wella nac i benderfynu a oes angen gwella.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn enwi dim unigolion atebol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

### **Cam Gofynnol 1.6**

#### **Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol**

1.6 1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fydd pobl hŷn yn wynebu camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol neu pan fydd perygl o hynny.
- pan fydd cartref gofal yn cau neu bobl hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fydd angen cymorth ar bobl hŷn i'w helpu i adael yr ysbyty.

Os bydd gallu pobl yn mynd a dod neu os bydd hi'n anodd iddynt

gyfathrebu, dylid cynnig eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Pan fydd pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, rhaid i breswylwyr allu cael gafael ar eiriolaeth heb gyfarwyddyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig ychydig bach o wybodaeth ynglŷn â'r ddau sefydliad y gellir cyfeirio unigolion atynt i gael gwasanaeth eiriolaeth. Serch hynny, nid oes dadansoddiad o'r galw am y gwasanaeth, nac o realiti'r sefyllfa i unigolion o ran cael gafael ar y gwasanaeth hwn nac ychwaith o sut mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau ansawdd yr eiriolaeth annibynnol a ddarperir.

Nid yw'r ymateb yn dweud o dan ba amgylchiadau gwahanol y dylid sicrhau bod eiriolaeth annibynnol ar gael, ac nid yw'n cyfeirio at ddefnyddio eiriolaeth heb gyfarwyddyd. At hynny, nid yw'r ymateb yn cynnig ymrwymiad i gael gwybod a oes angen gwella'r ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol yn sgil canfyddiadau'r Adolygiad.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn enwi dim unigolion atebol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

## **Cam Gofynnol 2.2**

### **Casgliad Cychwynnol - Rhannol**

2.2 Mae pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol a, lle bydd hynny'n briodol, ar ofal gan bobl o sawl gwahanol ddisgyblaeth, a hwnnw wedi'i gynllunio i'w helpu i wella ar ôl cyfnod o afiechyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig datganiad byr bod gwasanaethau ar gael, a phan fydd bwch yn y gwasanaeth bydd y Tîm Cymorth Cartrefi Gofal yn cynorthwyo i hwyluso atgyfeiriadau neu gymorth.

Serch hynny, nid oes dadansoddiad o realiti'r sefyllfa i bobl hŷn o ran cael gafael ar y gwasanaethau nac o ran eu profiadau na dim gwybodaeth wedi'i chynnig am sut mae'n sicrhau ansawdd y ddarpariaeth bresennol. Nid yw'n ymddangos bod parodrwydd i asesu'r angen i wella yn sgil yr Adolygiad.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn enwi dim unigolion atebol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

## **Cam Gofynnol 3.4**

### **Casgliad Cychwynnol - Rhannol**

3.4 Datblygu cefnogaeth mewngymorth aml-ddisgyblaeth ar gyfer iechyd a lles meddyliol pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau bod y cymorth hwnnw ar gael, gan gynnwys:

- Asesu iechyd a lles meddyliol pobl hŷn fel rhan o ddatblygu eu cynllun gofal a chymorth a chynllunio'u gofal parhaus.
- Cyngor a chymorth i staff gofal ynglŷn â sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn sydd ag anghenion lles ac iechyd meddyliol, gan gynnwys dementia, a pha bryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Bydd yr holl breswylwyr sy'n cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu i weld a oes modd eu diddyfnu a bydd adolygiadau'n cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig gwybodaeth am y camau cadarnhaol mae'r Bwrdd Iechyd yn eu dilyn i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl, megis arweinwyr dementia sy'n gallu darparu hyfforddiant a chymorth mewn cartrefi gofal, datblygu pecyn cymorth ar gyfer gofal dementia, a chymorth i staff gofal gan y gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i oedolion hŷn.

Serch hynny, nid yw'r ymateb yn cynnig dim gwybodaeth am realiti'r sefyllfa i'r staff o ran cael gafael ar y gwasanaethau hyn a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ansawdd bywyd pobl hŷn.

Nid yw ymateb y Bwrdd Iechyd yn cynnig gwybodaeth am gynlluniau peilot llwyddiannus a gynhaliwyd i fonitro a gwella'r ffordd y defnyddir cyffuriau gwrthseicotig. At hynny, mae'n ymddangos ei bod yn fwriad datblygu strategaeth newydd ar gyfer 'rheoli dementia'. Serch hynny, nid oes rhagor o wybodaeth am yr ymrwymiad i gyflwyno cynlluniau peilot ar draws y rhanbarth na pha bryd y bydd y strategaeth newydd hon yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith.

Nid yw'r ymateb yn cynnig dim gwybodaeth am asesiadau iechyd a lles meddyliol.

### **Cam Gofynnol 3.5**

#### **Casgliad Cychwynnol – Annerbyniol**

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal, a'r rheini wedi'u meincnodi ar sail canllawiau NICE a Thargedau Deallus Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn nodi bod cleifion yn cael eu monitro a'u hasesu ar gyfer eu diddyfnu, a bod adolygiadau'n cael eu cynnal sy'n glynu wrth ganllawiau NICE. Mae'r ymateb yn dweud bod hyn yn cael ei archwilio ar hyn o bryd drwy gyfrwng nodiadau meddygol. Serch hynny, nid yw'r ymateb yn cynnig ymrwymiad na bwriad i gyhoeddi gwybodaeth am ddefnyddio cyffuriau gwrthseicotig.

### **Cam Gofynnol 4.2**

#### **Casgliad Cychwynnol – Annerbyniol**

4.2 Bydd cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, gan gynnwys mynediad agored
- Amserau aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hyn yn y

cartref

- Mynediad at wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig gwybodaeth gadarnhaol am y cymorth a ddarperir i gartrefi gofal, a defnyddio'r pecyn Hanfodion Gofal. Serch hynny, nid yw hyn yn ddigonol i'w ystyried yn ymrwymiad i ddatblygu cytundeb ffurfiol fel sy'n cael ei nodi yn y Cam Gofynnol. Nid yw'r ymateb yn cynnig dim gwybodaeth, nac yn dangos bwriad i ddatblygu cytundeb ffurfiol rhwng cartrefi gofal, gofal sylfaenol a gwasanaethau arbenigol a rhoi cytundeb o'r fath ar waith.

### **Cam Gofynnol 4.3**

#### **Casgliad Cychwynnol – Rhannol**

4.3 Rhoddir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant lle bo hynny'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig ychydig bach o wybodaeth am yr hyfforddiant a'r cymorth a roddir i staff cartrefi gofal. Ceir gwybodaeth am gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu cymorth a hyfforddiant gwell gan ddau Awdurdod Lleol yn y rhanbarth.

Serch hynny, nid oes cynllun clir i weithredu a chyflawni'r gwaith sydd eisoes ar y gweill nac ychwaith ymrwymiad amlwg i gwmpasu ansawdd y ddarpariaeth bresennol ac a oes angen unrhyw welliannau o safbwynt y Bwrdd Iechyd.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn enwi dim unigolion atebol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

### **Cam Gofynnol 4.4**

## **Casgliad Cychwynnol – Rhannol**

4.4 Pan fydd pobl hŷn yn cyrraedd cartref gofal, bydd gweithiwr proffesiynol clinigol cymwysedig yn adolygu eu meddyginiaethau, a bydd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dangos ei fod yn cydnabod bod angen gwella wrth adolygu meddyginiaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol bod pocedi o waith da mewn rhai ardaloedd ac nad yw'r rhain yn ymestyn ledled y rhanbarth ar hyn o bryd. Serch hynny, nid oes cynllun gweithredu clir ar gyfer sut y caiff yr arfer da hwn ei ymestyn ar draws y rhanbarth cyfan.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn enwi dim unigolion atebol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

## **Cam Gofynnol 5.6**

### **Casgliad Cychwynnol – Annerbyniol**

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal lle bydd Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu risgiau parhaus ynghylch ansawdd bywyd neu'r gofal a roddir i breswylwyr a/neu'r posibilrwydd o darfu ar eu hawliau dynol.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio Rheolwyr Cartrefi Gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, i ddarparu cefnogaeth ddwys a thrawsnewidiol i wella safonau ansawdd bywyd a gofal i breswylwyr, yn ogystal ag i atal a lliniaru risgiau ym maes diogelu yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hwn hefyd ddatblygu amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau hyfforddi i helpu cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwella'n barhaus.



Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dweud bod staff rheng flaen sydd â sgiliau arbenigol eisoes yn cefnogi cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl, ac, yn y manau hynny lle mae bylchau, y bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain erbyn mis Medi 2016. Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad hwn, ni roddir dim gwybodaeth am sut y gwelir y bylchau hyn na sut y bydd y Bwrdd yn mynd i'r afael â hwy.

Mae'r ymateb yn cynnig gwybodaeth am y camau hyfforddi a gwella sydd eisoes wedi'u cymryd gan y Bwrdd Iechyd, megis cydweithio â'r Awdurdod Lleol i ddarparu hyfforddiant ar ddogfennaeth a datblygu'r Tîm Cymorth Cartrefi Gofal.

Serch hynny, er gwaethaf yr enghreifftiau cadarnhaol hyn ni cheir ymrwymiad clir i gefnogi datblygiad Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

## **Cam Gofynnol 6.2**

### **Casgliad Cychwynnol – Annerbyniol**

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau eu bod yn gweithredu ar eu sylwadau.

Dylid adrodd yn ôl yn flynyddol am sut mae'r adborth parhaus gan bobl hŷn wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno gwella parhaus (gweler cam 6.10).

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig gwybodaeth am y gwaith mae Aseswyr Nyrsys yn ei wneud i fonitro ansawdd a phryderon.

Mae'r ymateb yn dangos parodrwydd i wella cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol ac AGGCC yn y manau lle y gwelir bod bylchau ac anghysonderau. Serch hynny, ni chynigir unrhyw wybodaeth am sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gwrando'n uniongyrchol ar bobl hŷn heblaw am gwynion ffurfiol a sut

mae'n yn bwriadu datblygu neu wella hyn. At hynny, nid yw'r ymateb yn cyfeirio at adroddiadau blynyddol i ddangos sut y mae gwrando ar bobl hŷn wedi ysgogi gwelliannau parhaus.

## **Cam Gofynnol 6.8**

### **Casgliad Cychwynnol – Annerbyniol**

6.8 Byrddau lechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn ffordd amhriodol
- sicrhau bod cymorth ar gyfer iechyd a lles meddyliol ar gael
- nifer y cwympiadau
- mynediad at y gwasanaeth atal cwympiadau
- mynediad at wasanaethau ail-alluogi
- cefnogaeth i gynnal y golwg a'r clyw.

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys yn rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

Mae ymateb y Bwrdd lechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn dweud ei fod yn archwilio a fyddai'n briodol cynnwys y wybodaeth hon yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol. Nid yw'r ymateb yn rhoi unrhyw ymrwymiad i gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol i ansawdd bywyd y cyfeirir ato yn y Cam Gofynnol yn y DAB.

## **Cam Gofynnol 7.3**

## Casgliad Cychwynnol – Rhannol

7.3 Mae'r GIG yn gweithio gyda'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu'n rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, gan gynnwys darparu cefnogaeth lawn o ran datblygiad proffesiynol nyrsys a chefnogaeth gan gymheiriaid i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r Cam Gofynnol hwn yn cynnig gwybodaeth am y camau cadarnhaol a rhagweithiol y mae'n eu cymryd i wella'r llwybrau gyrfa nyrsio i'r sector cartrefi gofal. Er enghraifft, mae wedi ymgymryd ag ymarfer cwmpasu i nodi proffil y gweithlu ac mae'n cydweithio â Phrifysgol Abertawe i hybu lleoliadau nyrsio. Mae'r ymateb hefyd yn cydnabod y gwirionedd am y sefyllfa, a pham na fyddai nyrsys o bosibl yn dymuno gweithio yn y sector ar hyn o bryd.

Serch hynny, ni chynigir rhagor o wybodaeth nac ymrwymiad i gydweithio'n uniongyrchol â'r sector cartrefi gofal er mwyn gwella recriwtio. Er enghraifft, ni chynigir amserlen glir ar gyfer y gwaith gyda Phrifysgol Abertawe. At hynny, ceir awgrym ynglŷn â'r gwaith y gallai'r sector cartrefi gofal ymgymryd ag ef megis hysbysebu ar rwydweithiau cymdeithasol. Ond,, nid oes dim ymrwymiad i gydweithio â hwy i gyflawni hyn.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn enwi dim unigolion atebol sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cam Gofynnol hwn.

## Atodiad 1:

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, cwestiynau a godwyd

#### Cam Gofynnol 6.8

Cwestiwn:

“Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio a yw'n briodol cynnwys hyn yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol. Petai'n cael ei gynnwys, a fyddai'n gwella'r canlyniadau? Mae'r Bwrdd Iechyd yn teimlo bod angen iddo gysylltu â'r gwaith Cymru gyfan ar y metrigau ar gyfer pobl hŷn, a bod angen mynd ati ar sail Cymru Gyfan gan ddefnyddio dull Rheoleiddiol wrth symud ymlaen.”

Tybiwyd bod a wnelo'r cwestiwn hwn â chynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i ansawdd bywyd yn eu Datganiad Ansawdd Blynyddol presennol.

Barn y Comisiynydd yw bod angen bod yn fwy agored a thryloyw ynglŷn ag ansawdd cartrefi gofal ledled Cymru. Rhaid i bobl hŷn gael yr hawl i weld gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon am ansawdd y bywyd a'r gofal a ddarperir gan gartrefi gofal unigol neu ynddynt, ac mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am hawliau a phrofiadau gofal iechyd. Mae diffyg tryloywder yn tansellio gallu pobl hŷn i wneud penderfyniadau priodol, yn tansellio ymddiriedaeth ehangach y cyhoedd, ac mae'n rhwystro newidiadau systematig.

Mae'r Comisiynydd yn cydnabod efallai nad yw'r holl ddata meintiol ar gael yn rhwydd ar hyn o bryd; serch hynny, yn y cyfamser ni ddylai hyn lesteirio darparu adroddiadau naratif cadarn a thryloyw am ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. At hynny, byddai'r Comisiynydd yn disgwyl i wybodaeth a gynhwysid yn y Datganiad Ansawdd Blynyddol ac unrhyw waith sy'n sail i hyn gael ei gysylltu â

gwaith perthnasol parhaus, megis 'gwaith Cymru gyfan ar y metrigau sy'n berthnasol i bobl hŷn'.